



Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 08fed o Fehefin 2023 Yng Nghanolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00 y.h Agenda

1. Presennol: /Present
2. Ymddiheuriadau: Apologies
3. Datgan buddiant / Declaration of interest
4. Derbyn cofnodion / Accept Minutes 11eg o Fai / May 2023
5. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising
6. Materion ariannol / Financial Issues
 - i. Mantolen ariannol / Financial report
 - ii. Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 31/05/2023
7. Cynllunio / Planning
 - a. **C23/0383/25/HY** Lleoliad:- Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, LL572PW
Codi dau bolyn fflag (un i arddangos baner cenedlaethol a'r llall i arddangos baneri amrywiol
 - b. C23/0075/25/AC Lleoliad : Meifod Ffordd Penrhos, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2NL Bwriad Cais i ddiwygio amodau ynghlwm â chaniatâd cynllunio C21/0042/25/LL ar gyfer codi tŷ deulawr, modurdy, creu mynedfa gerbydol newydd a gwaith cysylltiol : Amod 2 - Amrywio'r cynllun a ganiatawyd er galluogi newid lleoliad yr adeilad arfaethedig o fewn y safle; Amod 8 - newid y geiriad i fynnu cwblhau'r fynedfa a ddangosir ar y cynllun a gyflwynwyd cyn defnyddio'r anedd ar ddibenion trigiannol.
8. Materion y Clerc / Topics from the Clerk
 - Derbyn a mabwysiadu Rheolau /Telerau'r Fynwent
 - Septic Tanc Diweddariad
 - Capel y Fynwent Diweddariad
 - Cae chwarae Caerhun Wedi ei gwblhau
 - Cysgodfannau Diweddariad
 - Hyfforddiant Cais am Hyfforddwr/aig
9. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics
 - Cyng M Baines/A Joyce Teithiau Llesiant Ffordd Penrhos



Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 11eg o Fai 2023 gynhalwyd yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

1. Presennol:

Y Cyng. M Lynch Cadeirydd, L. A. James, D. Jones-Morris, C W Owen, A Joyce, B Jones, M Baines, a J Pierce ag Elwyn Jones (Clerc)

2. Ymddiheuriadau:

Y Cyng, J. Lewis, I Ellis, D W. Jones, a J Griffiths

3. Datgan buddiant

Cyng L A James, Cyng M Baines Cyng A Joyce a'r Cyng J Pierce yn datgan diddordeb eu bod yn aelodau o bwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymuned

4. Derbyn Cofnodion 13eg o Ebrill

Cynnigwyd eu bod yn gofnodion cywir gan y Cyng M Baines ag eilwyd gan y Cyng D Jones Morris

5. Materion yn codi

Cyfeiriodd Cyng A Joyce unwaith eto at Wefan y Cyngor a bod 'hen hysbyseb' o 2019 yn dal ar yr Hysbysfwrdd/tudalen flaen y Wefan

'Roedd y Cyng L A James yn cydnabod fod y wefan angen ei uwchraddio/adnewyddu tra bod pawb yn cydnabod mae onibai am ffrwyth llafur y Cyng James mi fyddai'r wefan yn dena iawn o ran cynnwys arwahan i'r cofnodion

Cytunwyd trafod y wefan yn ei chyfanrwydd yng nghyfarfod Mis Mehefin.

6. Materion ariannol

I. Mantolen ariannol

Roedd y fantolen ariannol IBC 26ain o Ebrill wedi ei rhannu hefo pawb yn dangos

£12,590.50 yn y cyfrif cyfredol a

£45,242.50 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn Llog o £116.71

Ychwanegwyd fod £27.5K Praesept wedi ei dderbyn y diwrnod ar ol yr IBC

Esbonwyd fod y Cyng L A James wedi prynu llawer ar gyfer moderneiddio y Ganolfan bresennol hefo ei arian ei hun ag angen ei digolledu.

Gofynwyd i ni ddal ar y taliad gan fod manion ychwanegol angen eu cynnwys

II. Archwyllo Allannol

Dim diweddariad pellach Adroddodd y Cyng I Ellis iddo ddirprwyo i fynychu cyfarfod Unllais a bod bron bob Cyngor Cymuned yn cwyno am yr un peth.

III. Cofnodion cyfarfodydd IBC 29/03/2023

Bu cyfarfod buddiol dros ben rhwng dirprwyaeth o'r Cyngor a'n Cyfreithwr yn y Ganolfan 25ain o Ebrill pan gafodd y cyfreithiwr gyfle i weld a'i lygaid ei hun cymaint ydi'r broblem parcio ar dir y ganolfan heb ganiatad ac mae erbyn hyn wedi cysylltu a chyfreithwyr Cyngor Gwynedd ond heb dderbyn ymateb yn ol.

Trafodwyd ffyrdd i farchnata y ganolfan yn well a cytunwyd i roi hysbyseb yn y Papur Bro Goriad yn fisol am £216 y flwyddyn Bydd y Papur allan 10 mis o'r flwyddyn

Cytunwyd hefyd i gynhyrchu taflen maint A5 allai gael ei dosbarthu o amgylch tai yn ogystal a'i ychwanegu i mewn i'r papur Goriad a gadael rhai yn y siopa lleol

Cytunodd Cyng M Baines, Cyng C Owen a Cyng L A James ag aelod arall o bwyllgor y Ganolfan geisio dod a rhywbeth at ei gilydd



Cyngor Cymuned Pentir

O ran y ganolfan ei hun, ar ei newydd wedd, mae defnyddwyr yn hapus iawn wrth gynnal Partion a Capel y Ffynnon

7. Cynllunio

- a. C23/0311/25/LL Lleoliad : Hafodol Ffordd Y Fodolydd, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QD
Bwriad : Dymchwel tŷ presennol ynghyd a sied amaethyddol a chodi tŷ newydd yn eu lle ynghyd a modurdy ar wahân; gweithdy, gwaith trin dwr aflan a sudd fan ddŵr ynghyd a rhodfa newydd. **Dim gwrthwynebiad**
- b. C23/0346/25/LL Lleoliad : Old Manor House, Parc Y Faenol, Bangor, Gwynedd, LL57 4BP
Bwriad : The proposal is for the change of use of the working stables to residential use. This includes a request for an extension with a glass link to the stable building. The provision of a glass link is to preserve the existing elevations of the listed building. **Dim gwrthwynebiad**
- c. C23/0174/25/CR Lleoliad : Old Manor House, Parc Y Faenol, Bangor, Gwynedd, LL57 4BP
Bwriad : Addasiadau mewnol ac allanol i adeilad rhestredig a chodi estyniad newydd cefn **Dim gwrthwynebiad**
- d. C23/0316/25/DT Lleoliad: Bryn Awel, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4EA Bwriad : Trosi garej ac estyniad i greu anecs / swyddfa gartref . Conversion and extension to create an annexe/home office. **Dim gwrthwynebiad**

8. Materion y Clerc

- i. **Cyfarfod Gamlin's** Ganolfan/Ysgol y Faenol Eisioes wedi drafod dan 6. 111
- ii. **Yswiriant** Trafod pris adnewyddu Derbyn y pris er bod cynnydd bychan mi oeddem wedi ymrwymo llynedd i aros hefo'r Cwmni am 3 blynedd
- iii. **Digomisiynu'r Septic Tanc**
Wedi derbyn pris gan y contractwr ond mi oedd y Contractwr wedi cael profedigaeth felly wedi gohirio y gwaith.
Cyfrieithwyr yn ymwybodol o hynny ag unwaith y cawn ddyddiad pryd bydd y gwaith yn dechrau yna bydd angen anfon llythyr at berchennog yr Hen Eglwys sydd eisioes wedi cael rhybudd y bydd y gwaith yn cael ei wneud
- iv. **Capel y Fynwent** Y Clerc wedi cysylltu a Cwmni Cadarn i esbonio ein bwriada gan bwysleisio na adnewyddu y llawr yw'r blaenoriaeth am eleni
- v. **Cae chwarae Caerhun** Y gwaith wedi ei gychwyn ond wedi cael galwadau gan y Contractwyr yn datgan fod diffygion pellach wedi eu darganfod na fyddai wedi bod yn weladwy i RoSPA wrth iddynt archwyllo.
Cytunwyd bod y gwaith yn cael ei wneud ar gost ychwanegol
- vi. **Hyfforddiant** Y Cynllun
Rhannodd y Clerc y cynllun oedd wedi ei ddarparu ond oedd heb fanylu amserlen arno Trafodwyd a cytunwyd ar pryd yn y blynyddoedd nesaf y byddem yn cynnal hyfforddiant ar gyfer pawb yn unol a'r catagoria oedd wedi eu adnabod wanaf.
Pwysleisiodd ymhellach bod rhwydd hynt i unrhyw Gynghorydd sy'n awyddus i ddilyn unrhyw Fodiwl mae Unllais Cymru yn ei gynnig yn ddeufisol i uwchraddio eu sgiliau
Cais Cyngor Pistyll
Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr o Cyngor Pistyll yn chwilio am gefnogaeth i'w cwyn fod llawer iawn o'r Hyfforddiant drwy Unllais Cymru drwy gyfrwng Saesneg
Cytunwyd cefnogi eu llythyr
Trafodwyd hefyd yr angen i gefnogi Dysgwyr Cymraeg a cytunwyd cynnig cymorth ychwanegol tae cais/angen yn codi



Cyngor Cymuned Pentir

vii. Calendr 2023-24 Cyngor Pentir

'Roedd Llawlyfr y Cyngorwyr wedi ei rannu yn dangos dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor Llawn a'r Is-bwyllgor Cyllid ond dim lleoliadau
Cytunwyd cynnal cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn ystod misoedd yr haf Mehefin, Gorffennaf a Medi 2023 a Mai 2024 yng Nghanolfan Glasinfryn
Y Clerc eisioes wedi son wrth ein Cyfieithwyr ar y pryd

9. Materion y Cyngorwyr

- **Cyng L A James** Adnewyddiadau'r Ganolfan Llawer wedi ei drafod dan 6.111 o ran arwyddion ac yn y blaen ond ychwanegwyd bod angen clirio y ffens sydd wedi ei gadael gan Gwmni Wynne's a gosod un newydd mwy parhaol
- **Cyng M Baines** Llwybr Treborth Adroddwyd fod y broses yn un hirfaith allai gymeryd misoedd os nad blynnyddoedd i ddod i'w therfyn. Ymgynghori hefo tystiolaethwyr mae nhw ar hyn o bryd
- **Cyng L A James** **Yn absenoldeb Cyng J Griffiths** cyfeiriodd ar gyflwr trychinebys y gyffordd rhwng lon Glasinfryna Lon Waen Wen. Nid yn unig for y ffordd yn llawn tyllau ond fod y tyllau bellach wedi golygu nad yw'r llinellau gwyn i'w gweld
Yn absenoldeb Cyng J Lewis trafodwyd yr hysbysfwrdd gwybodaeth i Sgwar Pentir oedd wedi cael amcanbris o oddeutu £2.5K yn cynnwys popeth o wneud yr ymchwil i goladu, derbyn a gosod, yr hysbysfwrdd. Nid oedd lleoliad wedi ei adnabod eto ag 'roedd peth ansicrwydd ynglyn ag a'i cais gan y trigolion oedd hwn a bod y pris yn uchel am 1 eitem. **Oes lle i holi am fwy o brisiau?**
- **Cyng B Jones** Yn adrodd ei fod wedi cysylltu ag aelodau Llywodraeth Cymru Arfon ag Ynys-Mon i ofyn iddynt geisio ymestyn cael Llywodaeth Cymru i ymestyn profion y colyddyn o 74 i 80 mlwydd oed
- **Cyng D Jones-Morris** yn adrodd fod nifer o gleifion Ysbyty Gwynedd yn cerdded gyda'i gofalwyr/Nyrs i'n mainc ni ar gyffordd Ffordd Penrhos/ffordd Menai i ysmegu a bod yr ardal yn gywilyddus i'w gweld. **Angen cysylltu hefo Ffion Johnstone yn Ysbyty Gwynedd** Ychwanegodd hefyd iddo gael ar ddeallt fod troseddu yn uwch yn ardal Bangor South nag ardaloedd eraill. Y Cynghorydd am ynchwilio yn bellach a dod yn ol atom cyn ystyried gwahodd aelod o'r Heddlu atom i darfod

Daeth y cyfarfod i ben 9.10